# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 2

CYDGYSYLLTU A CHYNLLUNIO GOFAL AR GYFER DEFNYDDWYR GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

*Penodi cydgysylltwyr gofal*

### 15 Dynodi'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol ar gyfer claf perthnasol

(1) Mae'r is-adran hon yn gymwys–

(a) pan fydd Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd ar gyfer claf perthnasol; a

(b) pan na fydd awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu cyfryw wasanaeth.

(2) Pan fydd is-adran (1) yn gymwys, y Bwrdd yw'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys–

(a) pan fydd Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd ar gyfer claf perthnasol; a

(b) pan fydd awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am ddarparu'r cyfryw wasanaeth.

(4) Pan fydd is-adran (3) yn gymwys, mae dynodi mai un o'r personau y cyfeirir atynt yn yr is-adran honno yw'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol i'w wneud yn unol â darpariaeth mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (4)–

(a) darparu i Weinidogion Cymru ddyfarnu ar anghydfodau o ran gweithredu'r rheoliadau;

(b) darparu i Weinidogion Cymru wneud y cyfryw ddyfarniad ag y gwelant yn dda ei wneud sy'n ddyfarniad sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu

gwneud gan un o'r personau y cyfeirir atynt yn is-adran (3) i'r person arall yn sgil dyfarniad y cyfeirir ato ym mharagraff (a);

(c) dynodi mai darparydd yw'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol tra disgwylir dyfarniad o dan baragraff (a).

(6) Os nad yw nac is-adran (1) nac is-adran (3) yn gymwys, dyma yw'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol–

(a) os yw awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd ar gyfer y claf, yr awdurdod;

(b) os yw'r claf o dan warcheidiaeth awdurdod lleol, yr awdurdod;

(c) os nad yw na pharagraff (a) na pharagraff (b) yn gymwys ond bod Gweinidogion Cymru'n gyfriol am ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd i'r claf, Gweinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 mewn grym ar 15.2.2011 at ddibenion penodedig, gweler **a. 55(1)(2)**(b)

**I2** A. 15 mewn grym ar 6.6.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 15.